# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Tachwedd 2024 – Cyfrol 10 – Rhifyn 2


## Gwireddu'r weledigaeth




Ailagorwyd y Swyddfa Bost ar 10 Hydref gydag Emma a Tina, y rheolwyr, yn falch o weld y cwsmeriaid cyntaf yn y siop ar ei newydd wedd. Yr orchwyl gyntaf mewn pennod newydd ym mywyd Llandyrnog oedd bancio siec am £5000 – rhodd werthfawr gan Gyngor Cymuned Llandyrnog i'r siop er mwyn cwblhau'r adeilad.



*Emma, un o'r rheolwyr (chwith), Mags Roberts, un o'r ymddiriedolwyr, (canol) gyda chwsmer bodlon iawn yn y siop ar ei newydd wedd!*

Roedd dros 60 yn bresennol ar gyfer Cyfarfod Blynyddol cyntaf Siop Gymunedol Llandyrnog Cyfyngedig a gynhaliwyd nos Fawrth, 8 Hydref yn Neuadd y Pentref. Gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau pwysig i'r bwrdd presennol o wirfoddolwyr, yn cynnwys egluro awdit neu archwiliad annibynnol, sut y dewisir y nwyddau i'r siop, a chymhlethdodau cyflenwi papurau newydd. Penodwyd pum preswyliwr lleol yn unfrydol i fod yn gyfarwyddwyr am y flwyddyn nesaf: Viv Rosser, Pat Keefe, Gina Johnson, Mags Roberts a Jackie Le Fèvre.

Rhaid diolch yn ddiffuant i nifer o bobl leol am eu cymorth amhrisiadwy i sicrhau bod y prosiect wedi dod mor bell, ond gan fod gofod yn brin, rydw i'n enwi dim ond tri am y tro: Emyr Morris am y weledigaeth a'r dyfalbarhad i ddechrau'r prosiect a sicrhau grant o £400,000; Ivan Butler am weithredu fel cadeirydd annibynnol yng nghyfnod cynnar y Bwrdd, ac am ysgwyddo'r baich o sefydlu prosesau cyfrifo a darparu canllawiau polisi hanfodol; Nick Bell am ddod â'i arbenigedd helaeth ym myd adeiladu i'r gwaith adnewyddu ac am ofyn am ambell ffafr i gario'r gwaith ymlaen. Heb y gwirfoddolwyr hyn, yn ddi-os, ni fyddai siop na swyddfa bost yn y pentref heddiw!


Bydd Emma, Tina a'r holl gyfarwyddwyr yn gobeithio eich gweld yn fuan, a bydd ganddyn nhw ddiddordeb mewn clywed eich barn am y siop hyd yn hyn.

*Jackie Le Fèvre*
*Ysgrifennydd y Cwmni*

# Pytiau newyddion




Alma Lloyd Jones yn dathlu ei phen blwydd yn 90 oed y mis diwetha – dymuniadau da i chi!



Elin a Conor Carrington-Sykes a briodwyd yn Eglwys St Tyrnog ym mis Hydref. Dymuniadau da i'r ddau a hir oes i'r ddau gyda'i gilydd.

Diolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi i godi arian at Ganolfan Dementia Dinbych – codwyd y swm anhygoel o £849.

**Llongyfarchiadau** i nith Hazel Wright, Adele a'i gŵr, Zach, ar enedigaeth eu hail blentyn – Ralph Arthur Wright-Fitter ar 8 Hydref.

**Croeso** i Jeanette, Luca a Maisie Reaich a Nain (Sandra) sydd wedi dod i fyw i Fron Haul. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

**Pob dymuniad da** i Rod Williams yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty ac i Edith Hughes sydd bellach adre o'r ysbyty.

**Penblwydd hapus** hwyr i Joyce Catteroll oedd yn 96 oed ar 8fed Hydref.

**Cydymdeimlwn** â theuluoedd y diweddar Terry Tynan, Dinbych, a'r diweddar Elwyn Williams, Henllan, a fu'n blismon yn y pentref. Hefyd i Keith Evans a'i deulu, Tyddyn Bach, ar golli ei dad, Glyn Evans o Gellifor.

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 8pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 12.30pm |
| Sul | 9.30am – 12pm |

**Oriau agor y swyddfa bost**

| | |
|---|---|
| Llun – Gwener | 9am – 5.30pm |
| Sadwrn | 9am – 12.30pm |

07301 573362
01824 790310 (heb gysylltu eto)

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

llandyrnogshop.com

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | $4^{ydd}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | $5^{ed}$ | Clwb Llyfrau 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Llun | $11^{eg}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Mer | $13^{eg}$ | Undeb y Mamau, 2pm |
| Llun | $18^{fed}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | $19^{eg}$ | Clwb Llyfrau, 10am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | $20^{fed}$ | Tuesday Club, 2pm |
| Iau | $21^{ain}$ | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | $23^{ain}$ | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |
| Maw | $22^{ain}$ | Clwb Llyfrau 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Llun | $25^{ain}$ | Grŵp gweu a chrosio, 10am |

I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

**Gwasanaeth Cynghori Cysylltiadau Gwledig Sir Ddinbych**

**Bob dydd Gwener, 10am–12pm**

cyngor ar bopeth

**yn yr Ystafelloedd Coco**

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Eleri Jones: 01824 719623, advice@dcab.co.uk**




# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad $2^{il}$ | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun $4^{ydd}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9pm |
| Mer $6^{ed}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sul $10^{fed}$ | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun $11^{eg}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer $13^{eg}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad $16^{eg}$ | Bore coffi – Ymchwil Canser | 10–11.30pm |
| Llun $18^{fed}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw $19^{eg}$ | Cyfarfod Ymddiriedolaeth Genedlaethol Dyffryn Clwyd | 6–9pm |
| Mer $20^{fed}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad $23^{ain}$ | Bore coffi – Y Gymdeithas Hanes | 10–11.30pm |
| Llun $25^{ain}$ | Brownies | 4–7pm |
| | Côr | 7.30-9.30pm |
| Mer $27^{ain}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad $30^{ain}$ | Bore coffi – Capel y Dyffryn | 10–11.30pm |

I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| $3^{ydd}$ | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| $10^{fed}$ | 10.50am | I ddechrau ger y gofeb ryfel: Gwasanaeth Sul y Cofio |
| | 3.30pm | Llan Llanast yn Neuadd y Pentref |
| $17^{eg}$ | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| $24^{ain}$ | 11.15am | Cymun Bendigaid |

# Y cysylltiad â'r Eidal

**Carcharor Rhyfel yn Ffarm Eglwyswen, Ffordd Llandyrnog**

Fel y gŵyr pawb, cafodd carcharorion yr Ail Ryfel Byd eu hanfon i bob math o wersylloedd ar draws y Deyrnas Unedig, a'r agosaf at yr ardal hon oedd Gwersyll Pool Park, Rhuthun. Agorodd hwn yn 1942 a bu'n lletya carcharorion o'r Eidal a'r Almaen tan 1948 – dair blynedd ar ôl diwedd y Rhyfel. Oherwydd bod yr Eidal wedi dymchwel ffasgaeth Mussolini gyda Chadoediad Cassibile fis Medi 1943, ac ochri efo'r cynghreiriaid, doedd dim cymaint o Eidalwyr yn y 'Camp' yn Pool Park o 1944 ymlaen. Cafodd rhai eu hanfon i hosteli, rhai eu hanfon i aros a gweithio ar ffermydd a rhai eu hanfon adref yn y diwedd. Carcharorion Almaenig oedd mwyafrif y rhai oedd ar ôl yn y gwersyll erbyn diwedd y rhyfel, a llawer yno tan 1948.

Ar ddechrau'r cyfnod, roedd y carcharorion o'r Eidal yn Pool Park yn cael eu hanfon mewn loriau i wahanol ffermydd yn Nyffryn Clwyd, i wneud diwrnod da o waith, cael eu bwyd, a chael eu hel adref yn ôl i'r gwersyll gyda'r nos. Roedden nhw'n help mawr ar y ffermydd gan fod cymaint o brinder llafur oherwydd y rhyfel.

Un o'r Eidalwyr hynny ddaeth tua 1942 ar lori o Pool Park at fy nhaid a 'nhad i Fferm Eglwyswen, Ffordd Llandyrnog, oedd Toni Pagani – dyn rhadlon iawn, a bob amser â gwên ar ei wyneb. Mae'n fwy na thebyg ei fod wedi ei ddal rywbryd ar ôl Gorffennaf 1941, pan gafodd miloedd o filwyr yr Eidal eu dal a'u carcharu wedi'r rhyfela yn y Dwyrain Canol, a'u hanfon i Brydain. Dyma'r tro cyntaf i garcharorion rhyfel gyrraedd Prydain.

Ar ôl i'r Eidal ddod yn un o'r Cynghreiriaid ar ôl y Cadoediad yn Cassibile, mi gafodd Toni aros ar y ffarm dros nos, a chysgu mewn llofft allan yn Tŷ Buarth – yn wir, mi roedd o'n rhan o'r teulu go iawn erbyn hynny, a phawb yn mwynhau ei gwmni.



*Toni gyda Huw Wyn Jones, tad Ann Jones Evans*

Roedd wedi gadael ei wraig a'i ddau blentyn, Baldo a Maria, ar ôl yn Sezze, yn ardal Lazio, Yr Eidal, ac yn falch o ddangos llun ohonynt i unrhyw un a gymerai ddiddordeb. Roedd o'n weithiwr cydwybodol, ac yn cymryd at unrhyw orchwyl ar y fferm o ddifri' – dilyn y wedd, hau, cynaeafu, godro'r gyr o wartheg oedd ar y ffarm, a bwydo anifeiliaid. Stori arall oedd hi ar rai ffermydd – roedd yna ddywediad ar lawr gwlad Gogledd Cymru'r adeg honno, wrth gymharu carcharorion rhyfel yr Eidal â'r Almaen – "Dwedwch wrth Almaenwr am wneud rhywbeth ac mi wneith o'n syth bin. Dwedwch wrth Eidalwr ac mi eith i ddadlau!"

Ar ôl diwedd y rhyfel, daeth hi'n amser i Toni Pagani gael ei ddadalltudio, a'i anfon nôl at ei deulu bach yn Sezze, ac roedd hi'n chwith mawr ar ei ôl!!

# Y cysylltiad â'r Eidal: parhad

Gallai ei stori fod wedi diweddu fel hynny. Ond, ymhen ychydig fisoedd, roedd llythyr yn y post i Taid Eglwyswen, a chyfres o stampiau'r Eidal arno fo. Toni oedd wedi gwneud ymdrech fawr i sgwennu'r llythyr, yn ymbil yn daer am gael dod yn ôl i weithio ar y ffarm, a dod â'i deulu efo fo y tro 'ma. Ar ôl y Rhyfel wrth gwrs, fel yng ngweddill yr Eidal, roedd diweithdra yn Lazio yn rhemp a sawl teulu'n methu cynnal eu hun.

Gyda throad y post, atebodd Taid bod croeso mawr iddo fo a'i deulu bach ddod drosodd ac y byddai yna le iddyn nhw fyw yn y Tŷ Buarth gwag. Buan iawn roedd y teulu wedi setlo i lawr a'r plant yn mynd i'r ysgol leol. Mae gen i frith gof o grwydro lawr i'r Tŷ Buarth a Mrs Pagani yn chwerthin yn harti am rywbeth neu'i gilydd – dipyn o gymeriad. Y drafferth fwyaf, meddai Mam, oedd sgwrsio efo Mrs. Pagani, gan na wyddai air o Saesneg, heb sôn am Gymraeg! A dyna le buon nhw am o leiaf deng mlynedd, nes i Toni gael gwaith yn yr Wyddgrug ac iddyn nhw symud yno fel teulu – roedd mwy o beiriannau ar y ffarm i wneud gwaith gwas erbyn hynny.

Ond, nid dyna ddiwedd y stori eto 'chwaith. Gan fod Mrs. Pagani'n weddw erbyn hynny, ac wedi mynd nôl i fyw i Sezze at ei pherthnasau, byddai Mam yn dal i gysylltu â hi drwy ei merch Maria oedd yn yr Wyddgrug. Fel y digwyddodd pethe, roedd Elen, y ferch hynaf wedi setlo gyda'i theulu yn nhref glan y môr Nettuno, Talaith Lazio – dim ond 28 milltir o Sezze!

Felly yn 2009, pan oedden ni draw yn gwarchod, dyma benderfynu mynd efo Elen i gynrychioli'r hen deulu, fel petai, ac ymweld â Mrs. Pagani oedd ymhell yn ei hwythdegau ac yn o legach erbyn hynny. Teimlad dieithr oedd gweld wyneb cyfarwydd am y tro cyntaf ers blynyddoedd maith, a hynny yn yr Eidal. Teimlad rhyfeddach fyth oedd gwrando ar Mrs Pagani yn hel atgofion am 'yr hen, hen amser' yn Tŷ Buarth, Eglwyswen – sôn fel roedd hi'n fy ngwarchod i'n fabi bob hyn a hyn! Eidalwraig yn yr Eidal yn sôn am nyrsio Cymraes fach yng Nghymru, mor bell yn ôl – rhyfedd o fyd!

*Ann Jones Evans*


**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446



*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*



**DBP** **Denbigh Building Plastics**

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849

**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Dod i adnabod... Diane Irving




*Be ydi'ch atgofion cynnar chi?*
Cefais fy ngeni yng Nghaerwys yn 1961 i Don a Greta Lewis. Ganwyd fy niweddar fam yng Nghaerwys a Dad yn Llanbedr.

Cefais fagwraeth fendigedig. Roedd fy niweddar dad yn wneuthurwr dur ac yn adnabyddus iawn ym maes ffermio. Bu'n gweithio yn ffatri Jones Balers yn yr Wyddgrug, lle cynhyrchwyd byrnwyr Allis Chalmers ayb. Roedd Mam yn gweithio yn siop ddodrefn Astons, Dinbych.

Cyn cychwyn ysgol, roeddwn i'n arfer mynd gyda fy mam a'm modryb i ddosbarthu cywion o gwmpas Gogledd Cymru. Roedd fy niweddar fodryb, Glenys Owen, yn hanu o Landyrnog. Bûm yn treulio llawer o amser yn gweithio ar ei fferm yn ystod gwyliau'r haf.

Roedd fy nhad, Don Lewis, yn arfer chwarae pêl-droed i Landyrnog yn Nghynghrair yr Haf yn y 1950au, a hefyd yn chwarae dartiau i'r Golden Lion. Roedd Mam a Dad yn arfer mynychu'r dawnsfeydd yn Neuadd y Pentre' yn y 1950au ac yn gwrando ar fiwsig.

*Sut oedd y blynyddoedd ysgol?*
Es i i Ysgol Uwchradd Treffynnon lle'r oeddwn i'n arfer chwarae hoci, tenis a phêl rwyd i'r ysgol. Prynodd fy nhad ferlen frithgoch, Champion, i mi pan oeddwn i'n 11 oed. Mi wnaethon ni ei thorri mewn ac fe wnes i ei hyfforddi. Roeddwn i'n llwyddiannus iawn yn y merlogampau lleol, gan ennill llawer o rubanau, medalau a tharianau.

Cychwynnais weithio yn 13 oed, yn gweini, a phan oeddwn i'n bymtheg, roeddwn i'n gweithio fel cynorthwyydd gofal yng Nghartref Gofal Maes Mynan ar y penwythnosau ac adeg gwyliau ysgol.

*Ac ar ôl ysgol?*
Cychwynnais weithio yn Llangwyfan (Care Concern, yr adeg honno) yn 1984, a symud i Landyrnog yn 1989 a rhentu 4, Sgwâr yr Eglwys. Erbyn 1992, roeddwn i wedi cychwyn gweithio i Wasanaethau Cymdeithasol Sir Fflint.

Mi wnes i gyfarfod y gŵr Graham, yn 1995, a phriodi yn 1997, a phrynu ein tŷ presennol, 31 Maes Clwyd. Mae Graham yn Reolwr Gweithredol Cludiant McCarthys yn Wrecsam. Roeddwn i'n ynghlwm â'r gymuned yr adeg hynny. Gweithiais wedyn yn Ysgol Brondyffryn, Dinbych.

Yn anffodus, mi gefais anaf difrifol i'm pen-glin, a bu'r driniaeth yn fethiant. Mae hyn wedi 'ngadael efo poen cronig a phroblemau symudedd. Felly, alla i ddim ymwneud â'r gymuned gymaint ag yr hoffwn i fod. Fy nghyfraniad i ydi 'mod i'n hoffi coginio cacennau ar gyfer boreau coffi. Rydw i'n mwynhau tyfu planhigion o hadau, gwella ansawdd planhigion, a gwneud crefftau, er ar gyflymder llai erbyn hyn!

*Pa leoedd sy'n bwysig i chi?*
Mi wariais lawer o amser yn fy mhlentyndod a'm hieuenctid yn Vivod a Llangollen. Roedd fy hen Ewythr John yn Brif Fugail i'r Capten Best ar Stad Vivod, ac roedd ei wraig, Modryb Enid yn bobydd arbennig. Roedden ni fel teulu wastad yn mynd efo nhw i'r Eisteddfod bob blwyddyn. Arferem hefyd aros yn ystod gwyliau'r haf efo fy niweddar ewythr a modryb yng Nghaernarfon a'r cyffiniau. Mae'r

# Diane Irving: parhad

ardaloedd yma fel Vivod, Llangollen a Chaerwys yn agos iawn at fy nghalon.

*Be sy’n eich gwylltio?*
Mae pobl anghwrtais, diamynedd ac anystyriol yn fy ngwylltio i’n arw iawn.

*Be sy’n codi eich calon?*
Mae bod gyda fy nheulu a ffrindiau’n codi ’nghalon i, a gwrando ar fiwsig a gwylio cyfresi/ffilmiau comedi.

*Pwy fasech chi’n hoffi gwahodd i ginio a pham?*
Mi faswn i’n hoffi gwahodd Syr Alex Ferguson ac Eric Cantona, am ’mod i’n hoffi pêl-droed ac rydw i’n cefnogi Manchester United; Miriam Margolyes a Paul O’Grady i gael comedi; George Michael ac Andrea Bocelli i gael miwsig rhagorol a Margaret Thatcher er mwyn rhoi mwy o flas ar bethe!

Yn ola’, hoffwn i ddweud ’mod i’n hoffi byw yn Llandyrnog – fedrech chi ddim gofyn am gymuned well i fyw ynddi!

*(Diolch Diane, ac rydyn ni, fel cymuned, yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth hael i’r boreau coffi – Gol.)*

# Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod mis Hydref, gwnaethom ni bacio bocsys ar gyfer Operation Christmas Child. Y sialens gynta’ oedd rhoi’r bocsys at ei gilydd! Rydym ni wastad yn cael llawer o hwyl wrth ddewis eitemau i lenwi’r bocsys, a gobeithiwn y bydd y plant fydd yn eu hagor yn cael hwyl â’r holl bethau sydd ynddyn nhw.



# Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ym mis Hydref ac ailetholwyd y pwyllgor. Er mai grŵp bychan ydym ni, rydym wedi cyfrannu’n dda tuag at gymuned y pentre’ ac wedi cael blwyddyn dda iawn.

Bydd y rhaglen fel a ganlyn: mis Rhagfyr, arddangosiad ar sut i wneud torchau; mis Ionawr, y grefft gwehydda helyg; ffasiwn merched a choluro am brynhawn ym mis Chwefror ac arddangosiad sut i wneud siytni ac arwerthiant ym mis Mawrth.

Rydym yn mynd i amrywio’r lleoliad a’r amser er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl ddod i gyfarfod heb unrhyw reidrwydd i ymuno neu fod yn rhan o waith y pwyllgor.

Mae’n llawn hwyl ac mae’r aelodau’n trefnu ymweliadau diddorol rhwng y cyfarfodydd ar gyfer y rheini sy’n hoffi mentro allan.



Mwynhaodd grŵp bychan daith ar y trên o Langollen i Garrog. Dathlodd yr aelodau ben blwydd Betty gyda chacen yng Nghanolfan Grefftau Afonwen. Bydd y trip nesa i’r Ganolfan Arddangosfeydd Cenedlaethol (NEC) ym Mirmingham.

*Jane Borthwick*



# Ar hyd ran o Daith y Pererin

Os oes awydd taith gerdded iachus arnoch chi, dyma i chi un wnes i'r diwrnod o'r blaen. Tydi o ddim o gwmpas Llandyrnog ond ddim yn bell chwaith a chymerith o ddim mwy na hanner diwrnod! Mae'n rhan o Lwybr y Pererinion Gogledd Cymru – taith gerdded hir ond hyfryd o Dreffynnon i Ynys Enlli – ynys yr ugain mil o seintiau. Mae'r hanner cyntaf yn fewndirol tra bod yr ail ran o Abergwyngregyn i Enlli yn dilyn yr arfordir.

Mae'r llwybr i gyd yn 134 milltir a dwi eisoes wedi cwblhau fwy neu lai yr ail hanner o Gaernarfon i Aberdaron ac wedi ymweld â Ffynnon Fair – y ffynnon olaf i'r pererinion dorri eu syched. Mae hon mewn lle digon peryg ar y creigiau uwchben y Swnt.

Mi rydych i gyd yn gyfarwydd efo'r Swnt – ar ôl ymweld â'r Ffynnon mi wnes ddringo reit sydyn i ddiogelwch Mynydd Mawr.

Dwi'n gwneud hanner cynta'r daith mewn pellteroedd byr ond yn bennaf oherwydd y 'logistics' o gerdded ar ben fy hun. Tydi car bob pen, a phartner cerdded ddim yn opsiwn – dwi'n mwynhau cerdded ar fy nghyflymder cerdded fy hun. Be ydi cyflymder cerdded? Wel os gallwch chi ganu a cherdded mae'r cyflymder yn iawn – os ydych chi'n methu canu, rydych chi'n cerdded yn rhy gyflym!

Mi awn ni heddiw am daith fer ond hyfryd iawn – fy ail ddiwrnod o gerdded y rhan fewndirol – ryw chwe milltir, dyna'r cwbl.

**Trelawnyd i Dremeirchion**

Dilyn cyfarwyddiadau fy llawlyfr: 'O'r pentre, defnyddiwch y man croesi ac ewch am Eglwys San Mihangel. Dilynwch y lôn heibio'r Eglwys tuag at bont. Ar ôl croesi'r bont, dilynwch y trac i'r chwith. Mi fyddwn rŵan ar Daith Clwyd. Dilynwch y llwybr – mi welwch fynedfa i fyngalo Swyn y Mynydd at gamfa.'

Dyna ni, ar ôl hanner milltir roeddwn ar goll yn llwyr. Dim wedi deall mai nid y fi ydi'r unig un sydd wedi bod ar gyfeiliorn yn y darn yma. Mae weiar bigog ar draws giatiau, difrod maleisus i gamfeydd, arwyddion dargyfeirio llwybr ffug, tarw yn y cae – pob math o fisdimanars ond dwi ddim am feddwl gormod. Mae'n rhaid bod gan y tirfeddiannwr reswm da dros wneud hyn!

Ar ôl dargyfeiriad o ddwy filltir, roeddwn yn falch iawn o fod ar ffordd darmac eto a chlywed murmur traffig yn y pellter. Ar ôl pasio Pwll Halog a Penisa'r Waen (cartref Elfed Morris), croesi tarddiad y sŵn – yr A55, a sialens arall yn fy wynebu – cae tatws!

Dim ond o ran diddordeb, Bryngwyn Mawr ydi enw'r fferm ac mi fydd yr erwau lawer o datws yma ar y ffordd i McCain i wneud sglodion. Mae ganddynt bedair ffatri prosesu tatws ym Mhrydain ac mae'r rhain yn rhan o rwydwaith byd-eang o ffatrïoedd.



Ta waeth, yn ôl at y cae tatws – coesau bach sydd genna i ac roedd y rhychau yn fwy na'm camau. Mae'n rhaid bod genna i gam tair troedfedd a'r rhychau'n bedair troedfedd ar wahân. Mi gefais chwysfa yn croesi'r cae ac roeddwn yn falch iawn o gyrraedd y gamfa yn arwain at Bryngwyn Bach – nes i mi weld yr arwyddion.

Roedd hwn am fod yn her arall, ond fel bo'r gore, mae'r perchennog wedi dargyfeirio'r llwybr yn hollol gyfreithiol i fynd o amgylch ochr y cae i osgoi cael eich taro gan awyren – a dinosor. Mae ganddo ddinosor maint llawn yng nghornel y cae. Pawb at y peth y bo!



Roeddwn bellach yn ôl o gwmpas fy

# Ar hyd ran o Daith y Pererin: parhad




*Yng nghornel uchaf y llun, ar y dde, mi welwch y deinosor yng nghornel y cae (os oes gennych chwyddwydr!)*

mhethau ac mae'r llwybr yn ddigon hawdd i'w ddilyn. Roedd yn fy nghyfeirio tuag at gopa Moel Maenefa – 299m. Mi ella i ddweud o'r diwedd 'mod i wedi cyrraedd copa pob un o'r moelydd neu Fryniau Clwyd – o Foel Forfydd ger Bryneglwys (mae honno'n stori arall) i Foel Maenefa.

Dwi'n rhyw amau wrth anelu am y copa fy mod i wedi dal i'r dde achos cyn bo hir, roeddwn mewn rhedyn tua chwe troedfedd chwe modfedd o uchder – a tydw i 'mond pum troedfedd pum modfedd! Ac yn wir, roeddwn yn gorfod gwneud rhywbeth digon tebyg i nofio broga wrth geisio gwthio fy ffordd drwy'r rhedyn a cheisio cadw'r sbectol ar fy nhrwyn rhwng pob strôc. Un fflic a faswn ni byth yn eu ffeindio yn y rhedyn – a hefyd wrth gwrs fase Anwen byth yn dod o hyd i mi. Rhyfedd be sy'n mynd drwy feddwl rhywun, tydi!

Yn y diwedd mi welais olau dydd ac roeddwn yn y lle anghywir yn gyfan gwbl – roeddwn â 'nghefn tuag at Goleg San Beuno yn hytrach na dilyn crib Moel Maenefa. Ta waeth, ar ôl heic go iach yn ôl i ben y Foel a golygfeydd hyfryd o'r Dyffryn eto, anelu am Dremeirchion fel base'r pererinion yn ei wneud, am Eglwys Corpus Christi.

Rhaid i mi ddweud, mae yna rhyw dawelwch rhyfeddol yn yr eglwysi hynafol 'ma. Ymddiheuriadau i adeiladau'r hen gorff – tydyn nhw ddim yn yr un cae. Yr holl ffenestri gwydr lliw a'r golau'n bob lliw yn goleuo'r allor. Maent yn lefydd i geisio tawelwch meddwl, cyfri ein bendithion a rhoi gweddi dawel dros ein hanwyliaid. O feddwl am y pethau ofnadwy sy'n digwydd yn y byd ar hyn y bryd, a ninnau'n byw mewn cymdeithas ddemocrataidd heddychlon lle mae pawb, ar y cyfan, yn parchu'ch barn – argol, da ni'n lwcus!

Mae waliau allanol y fynwent (sydd i'w gweld yn glir) ar dro sydyn – sy'n awgrymu ei bod hi'n hynafol tu hwnt ac mae'r hynaf o'r coed sy'n amgylchynu'r fynwent tua 800 oed. Mae rhan hynaf yr eglwys fel y gwelwch chi heddiw yn dyddio o tua'r 12fed ganrif – sef waliau'r de a'r gogledd sydd ar ryw fwa tebyg iawn i siâp llong.

Rhaid i mi rannu hwn efo chi – cwpled ar garreg fedd gŵr bonheddig o Dŷ Capel Bethel, y Rhyl, fu farw yn 65 oed yn 1976. Cafodd ei roi i orwedd yn Nhremeirchion – yn amlwg cyn ei annwyl wraig Nancy, fu fyw hyd nes ei bod hi'n 86 oed.

'Cwrdd a gawn mewn gwynnach bro,
Ni fydd gwahanu yno.'

Ar ôl rhyw chwarter awr yno, roeddwn wedi bwriadu mynd o Dremeirchion i Lanelwy – ond penderfynu mynd adre yn lle hynny. Daeth Anwen, chwarae teg, i fy achub! Dim brys – mae fory heb ei gyffwrdd, tydi?

*Bryn Davies*

# Tŷ Ceffyl Bach

**23 Tachwedd**

**Ffair aeaf – cyfle i baratoi at y Dolig!**

**Port a mins peis**

**Dewch i fwynhau**

# Ysgol Bryn Clwyd

Ar ddechrau'r mis cafodd y dosbarth cynradd fynd ar ymweliad â ffatri Llaeth y Llan. Fel rhan o'u thema ar y Llychlynwyr, roedd rhaid iddyn nhw wneud eu menyn eu hunain yn null y Llychlynwyr. Yn ystod eu hymweliad cawsant ddysgu am ddulliau modern o brosesu cynnyrch llaeth.




Rydym wedi bod yn lwcus o dipyn o dywydd braf ar gyfer ein gwersi ysgol goedwig wythnosol, ac mae'r disgyblion yn dechrau datblygu sgiliau gwych wrth drin a thrafod offer gwahanol.



Mwynhaodd y babanod eu trip blynyddol i'r jambori yn Ysgol Brynhyfryd ac roedden nhw wrth eu bodd yn canu!



Rydyn ni'n falch ofnadwy o'r disgyblion fu'n cystadlu yn Eisteddfod Llandyrnog a hefyd ein ffrindiau o Ysgol Gellifor. Gwnaeth pawb eu gwaith yn rhagorol ac mae'n dipyn o gamp codi a llefaru ar eich pen eich hun o flaen cynulleidfa. Diolch yn fawr iawn hefyd i drefnwyr yr Eisteddfod am eu gwaith caled a'r gefnogaeth maen nhw'n ei rhoi i'r plant.



**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk

# Eisteddfod Llandyrnog

Cafwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd y Pentref nos Wener, Hydref 18fed, gyda chystadlu brwd am dros 6 awr. Y beirniad eleni oedd: Cerdd – Sioned Davies, Llanferres; Llefaru a Llên – Haf Evans, Henllan; Celf – Charlotte Lloyd, Dinbych, gyda phob un ohonynt yn canmol safon uchel y cystadlu ar draws y cystadlaethau llwyfan a'r gwaith cartref. Cafwyd dros 400 ymgais yn yr adran gelf a dros 180 yn yr adran lenyddiaeth! Y cyfeilydd eto eleni oedd Ann Edwards, Prion. Diolch i'r pedair ohonynt am eu gwaith trylwyr.

Enillydd y Gadair eleni oedd Rebecca Rees o Landysul a braf oedd ei chroesawu i Landyrnog a chael seremoni i'w hanrhydeddu.



Diolch yn fawr iawn i'r noddwyr a phawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd ar y noson. Diolch arbennig i'r ysgolion lleol am gefnogi eto eleni – heb y gefnogaeth hon, fyddai yna 'run Eisteddfod.

*Iona Davies*
*Cyd-ysgrifennydd yr Eisteddfod*

# Tuesday Club

Y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Hydref oedd Jane Borthwick. Er mai dim ond ers ychydig flynyddoedd mae hi'n byw yn ein plith, mae hi'n is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llandyrnog ac yn ysgrifenyddes cangen y pentre o Sefydliad y Merched. Mae hi'n uwch athrawes ymgynghorol ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir y Fflint ac yn un brysur iawn yn ei hamser hamdden.

Mae hi wedi bod yn ymwneud a'r Doddie Weir Foundation, elusen sydd wedi codi dros £11 miliwn at helpu pobl sy'n byw â chlefyd niwronau motor ac ymchwil i'r clefyd. Bob blwyddyn mae her ymarfer corff Doddie Aid yn digwydd ar ddechrau'r flwyddyn, ac yn parhau tan y gêm rygbi rhwng Cymru a'r Alban. Mae Jane a'i phartner, Geraint, wedi gwneud yr her, gan godi £2000 y tro cyntaf iddyn nhw gymryd rhan ynddi, a £1000 y llynedd.

Mae'r ddau wedi codi symiau anhygoel o arian tuag at elusennau – dros £10,000 rhwng pob dim. I godi arian at Ymchwil Canser maen nhw wedi cyflawni her y tri chopa Prydeinig, her tri chopa Swydd Efrog, ac wedi nofio 10 kilometr. Gwnaeth y ddau her y tri chopa Prydeinig eto i godi arian tuag at Ysgol yr Esgob, Caerwys a her tri chopa Cymru i godi arian at Parkinson's UK.

Dangosodd Jane luniau hyfryd o'i gwyliau a'u gweithgareddau amrywiol yn yr awyr agored, yn nofio ac yn cerdded mewn mannau hardd iawn.

Bydd cyfarfod nesaf y clwb ddydd Mercher, 20 Tachwedd, ac mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com

# Gild Trefoil

Dathlodd y Gild Trefoil yr ŵyl ddiolchgarwch gyda sgwrs gan y Parch. Alison Goldstein am lyfr Ruth a statws merched. Cyfrannwyd tuniau at y banc bwyd, ac wedyn cafwyd lluniaeth ysgafn a'r raffl. Yn y cyfarfod nesaf bydd Dorothy Roberts yn dod i roi arddangosfa o osod blodau.

# Capel y Dyffryn



Bore Sul 13 Hydref cafwyd gwasanaeth diolchgarwch y plant wedi ei baratoi gan Glesni a Siwan. Roedd y plant yn canu a gwneud eu rhan yn naturiol. Bu Iago a Mabon yn helpu Ann i ddangos mor bwysig ydi helpu ein gilydd a meddwl am y bobol sy'n gorfod mynychu'r banciau bwyd. Daeth y plant â nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Dinbych. Yn ystod y gwasanaeth derbyniodd pawb fag bach defnydd del yn cynnwys hadau o flodau amrywiol i'w tyfu gartref.




**Y Gymdeithas** Nos Lun, 7 Hydref cafwyd Swper Agoriadol y Gymdeithas am eleni gyda dros 60 o bobl yn bresennol. Catrin, Glesni, Gwenno a Siwan oedd yng ngofal y gweini. Cyflwynodd Gwenno a Fiona, Llinos, Tŷ Capel oedd wedi dod a pharti o ferched Blwyddyn 10 Ysgol Brynhyfryd. Cafwyd datganiadau hyfryd ganddyn nhw ynghyd â datganiadau rhagorol ar y piano. Diolchodd Dafydd i bawb am noson hyfryd dros ben.

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 03/11 | 10.00 | Sul Teulu |
| 10/11 | 10.50 | Gwasanaeth Sul y Cofio, Eglwys St Tyrnog |
| 17/11 | 9.45 | Parch. Nesta Davies |
| 24/11 | 10.00 | Ann ac Iestyn |

**Capel y Dyffryn**

**Bore Coffi**

**Dydd Sadwrn, 30 Tachwedd**

**10–11.30 yn Neuadd y Pentre**

Y stondinau arferol, raffl

***Croeso cynnes i bawb!***

# Llan Llanast



Yn ein sesiwn ym mis Hydref, clywsom am stori'r Heuwr a'r Had, a dysgom ni am dyfu planhigion a chynhaeafu. Gwnaethom ni lawer iawn o weithgareddau ar y thema, yn cynnwys plannu ffa mwng fel y gallwn eu gweld yn tyfu i egin ffa. Gwnaethom hefyd flodyn mawr fydd yn cael ei osod yn yr eglwys i bawb ei weld. Bydd ein sesiwn nesa' Dydd Sul 10 Tachwedd, a chroeso cynnes i bawb.

# Diolch

**Eglwys Sant Tyrnog – Cyngerdd**

Hoffem, fel Eglwys, ddiolch yn fawr i bawb ddaeth i'r cyngerdd nos Sadwrn 12 Hydref yn Neuadd y Pentre'. Cawsom ni wledd o gerddoriaeth gan Gôr Meibion Caerwys a ieuenctid lleol talentog iawn. Roedd rhywbeth i bawb fwynhau. Diolch i bawb gymerodd ran, i Tudur, arweinydd y côr, ac i Heather Powell a'i thîm am drefnu eitemau amrywiol rhagorol gan yr ieuenctid. Gwnaed elw o £820 tuag at yr Eglwys, ac felly diolch o galon i bawb.

*Mary Steel*

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364

Townsend Supplies
Townsend, Denbigh Ll16 3AW
01745 814918

For all farmyard & agricultural accessories & building supplies

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Rysáit

**Pwdin Bara Afal Taffi**

**Cynhwysion**

3 afal bwyta
Sudd hanner lemon
3 llwy fwrdd o siwgr
6 rhôl brioche, wedi'u sleisio
Tun 400g o bast caramel
3 wy
400ml llaeth braster llawn
1 llwy de o rin fanila
200ml hufen dwbl

Tynnwch galon 3 afal allan a'u sleisio'n gylchoedd trwchus.
Rhowch y sleisys mewn sudd hanner lemon a dwy lwy fwrdd o siwgr.
Rhowch dwy ran o dair o'r tun past caramel ar waelod dysgl pobi 20 × 30cm.
Sleisiwch 6 rhôl brioche, a'u rhoi yn haenau efo'r cylchoedd afal, fel eu bod yn gorgyffwrdd ei gilydd. Rhowch y caramel dros ben y cyfan – cewch adael ambell i sleisen afal ar ben y pwdin.
Curwch yr wyau, y llaeth, y rhin fanila, yr hufen, a llond llwy fwrdd o siwgr gyda'i gilydd.
Tywalltwch y cymysgedd dros y pwdin, rhowch 'clingffilm' drosto a'i roi yn yr oergell am o leiaf 30 munud – mae'n well dros nos.
Tynnwch y 'clingffilm', a sgeintiwch mymryn o siwgr dros y top, a'i goginio ar dymheredd o 170 °C neu 45–50 munud ar rif 3, popty nwy, neu nes bod y top wedi brownio!
Gweinwch efo hufen ia!

*Jane Borthwick*



# Gweithdai crefftau

Dewch i ddysgu crefft newydd a gobeithio y bydd gennych eitem orffenedig erbyn diwedd y sesiwn. £25 yw cost y gweithdai, a fydd yn cael eu cynnal yn yr Ystafelloedd Coco, ac mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau, te, coffi a bisgedi. Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch neges at Helen, hbrookhouse@yahoo.co.uk, am ragor o fanylion.

**Tachwedd: Torch alwminiwm**
Defnyddio tuniau alwminiwm wedi'u hailgylchu i greu torch i addurno'ch cartref.
Nos Iau, 21 Tachwedd 7–9pm
Bore dydd Sadwrn, 23 Tachwedd 10am–12pm

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn – rydym yn gwerthfawrogi pob un**

hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk



# Hanesion Hazel



Bydd Tymor yr Hydref yn dechrau go iawn fis yma, a'r hen, hen draddodiad o gynnau coelcerth a thân gwyllt yn digwydd. 'Remember, remember the 5th of November, Gunpwder, treason and plot', meddai'r hen bennill Saesneg. Falle na fyddai'r golygyddion yn hapus i mi adrodd y gerdd i gyd, ond mae hi i gael ar-lein.

Yn fy nhŷ i, mae'r simne bellach wedi'i glanhau, y llosgwr coed wedi'i gynnau, a'r ardd wedi mynd i gysgu dros y gaea'. Mae pawb yn gwario mwy o amser yn y tŷ hefyd efo'u hanwyliaid, gan fwynhau'r cysur a'r gwres – wel, mae'r cŵn acw wrth eu bodd. Dechrau dathliadau'r gaea' ydi Nos Glangaea', ac, yn ei dro daw Noson Tân Gwyllt ac ymlaen at Heuldro'r Gaea', ac yna'r 'Dolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mae 'na 400 mlynedd bellach ers 'Brad y Powdwr Du'. Mae'n dod yn dynn ar sodle Nos Galan efo'i 'thric a'i thrît', a'i fferins melys a digwyddiadau 'sbŵci' – a'r nosweithiau hir yn dal i ymestyn. Byddai fy mam yn arfer gwneud 'fale toffi i ni'r plant. Byddai'n gorchuddio fale bwyta ffres efo haen o siwgwr candi a rhoi ffon fechan yn y canol fel handlen. Fy nhad fydde'n nôl y 'fale o'r berllan, ond 'fale wedi disgyn yn y gwynt oedden nhw! Roedden ni'n gyffro i gyd ar noson tân gwyllt wrth gael bwyta'r 'fale toffi, ond wedyn, yn cael llond ceg o ddarne wedi gwsno – mi ddysges i'n fuan i fod yn llawer mwy gofalus wrth eu bwyta! Peth arall drwg i ddannedd oedd y taffi triag cartre', a'r oedolion yn cael digonedd o seidir.

Roeddwn i wedi anghofio'n llwyr pa mor gyffrous oedd sbarclyr – nes i mi fynd i briodas leol yr haf 'ma. Y dathliad olaf un oedd rhoi sbarclyrs i'r gwahoddedigion i gyd – ac yn syth bin, mi drodd pawb yn blant unwaith eto wrth chwerthin ac ysgwyd eu ffyn bach yn nhywyllwch noswaith o haf. Hudolus! Yr atgofion sy'n sefyll allan yn y cof ydi'r rhai lle roedd y tân gwyllt yn gwrthod tanio (er eu bod yn dod allan o hen focs Quality Street wedi'i selio. Gyda llaw mae Nestlé wedi newid i gardbord bellach – mwy cyfeillgar tuag at yr amgylchedd). Byddai Dad yn mynd yn fwy a mwy rhwystredig wrth weld swp o blant yn edrych ymlaen cymaint, a'r cŵn druan yn cuddio o dan y gwlâu.

Mor wahanol ydi hi'r dyddie yma – daeth y tân gwyllt 'distaw', a'r arddangosfeydd tân gwyllt pyro-gerddorol (miwsig sy'n cyd-amseru efo'r tanio, i'r rhai sy ddim yn gyfarwydd â'r term). Yn ddiweddar, roedden ni i gyd wedi'n syfrdanu wrth weld Gwawl y Gogledd neu'r *aurora borealis* a'i liwiau arallfydol uwchben Bryniau Clwyd – o'n gerddi ni'n hunain. Pwy fase wedi dychmygu'r fath beth? Cânt eu creu pan fydd gronynnau egnioledig o'r haul yn cau'n glep ar atmosffer uchaf y Ddaear ar gyflymder o 45miliwn m.y.a. – mae maes magnetig yn ein hamddiffyn ni. Talodd fy mrawd am fordaith unwaith-mewn-oes ar hyd arfordir Norwy a gweld Gwawl y Gogledd – mae'n siŵr fod llawer ohonom yn dyheu am wneud hyn!! Fy nghyngor i? Sefwch yn eich gardd ar noson glir i wireddu'ch breuddwyd – achos wedi'r cwbl mi gewch y sioe am ddim!!

Hazel



# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref o Gyngor Cymuned Llandyrnog

Roedd y deg aelod yn bresennol – un ar Zoom (y tro cyntaf!)

- Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan Heddlu Gogledd Cymru:
  - Hydref 5ed – un ddamwain i un car rhwng Llwyn Helyg a Brynllys. Roedd y gyrrwr wedi pasio'r prawf cyffuriau ac alcohol ac felly aeth y digwyddiad yn ddim pellach.
  - Hydref 8fed – cerbyd a beic yn gwrthdaro – mân anafiadau i'r beiciwr. Ni roddodd y gyrrwr ei fanylion, ac mae'r achos yn parhau.
  - Hydref 13eg – rhoddwyd gwybodaeth am sŵn uchel ceir a gyrwyr ifanc yn rasio – dim ond unwaith.
  - Dynes yn mynd â chi am dro yn agos iawn at gael ei tharo ar Lôn Goch – rhif digwyddiad wedi ei roi.
- Diolchwyd i'r Cynghorwyr E. Williams a G. Butler (isod) am roi eu bore Sadwrn i blannu blodau ar y gylchfan, a'r Cynghorydd R. Griffith am ofalu am focs y Brownies a'r blodau yn Sgwâr yr Eglwys.



- Ar ran y Cyngor Cymuned, mynychodd y Cynghorydd Butler gyfarfod cyswllt cyllid pan ddatgelwyd union sefyllfa ariannol CSDd – sefyllfa anodd iawn. Bydd disgwyl i'r Cynghorau Cymuned a'r Cynghorau Tref gyfrannu os bydd disgwyl parhau â'r gwasanaethau presennol mewn rhai ardaloedd.
- Cynllunio
  - Codi estyniad dau lawr ar ochr Bryn Dedwydd, Ffordd Las - dim pryderon mawr ond cynllun i sicrhau eu bod yn amddiffyn preifatrwydd a hwylustod drws nesaf.
  - Cais ôl-weithredol i newid defnydd o stabal i gyfleuster gofal cŵn, a pharhau i ddefnyddio'r lle'n aml-ddefnydd - i ymarfer ceffylau a chŵn, a pharhau i ddefnyddio'r tir at bwrpas amaethyddol a marchogol - Fferm y Wern, Llandyrnog. Cafwyd trafodaethau maith gyda'r swyddog achos. Fodd bynnag, nid oedd y ceisydd wedi darparu digon o dystiolaeth i'r Cyngor Cymuned allu gwneud penderfyniad cytbwys - felly'r penderfyniad yn nwylo CSDd.
- Y rhandir tu ôl i Nant Glyd – dim llawer o ddatblygiadau
- Gwaelod y fainc – dau ddyfynbris wedi eu derbyn, a phenderfynwyd bwrw 'mlaen â'r gwaith. Mae Llais Llandyrnog Voice yn garedig iawn wedi cynnig talu cyfraniad go sylweddol.
- Cyfethol- cadarnhad gan CSDd nad oes neb wedi gofyn am etholiad. Felly, gall y cyngor gael caniatâd i gyfethol aelod newydd - i'w drafod yn y flwyddyn newydd.
- Teimlwyd bod cynllun lliniaru llifogydd ar y ffordd rhwng Garth a Thŷ Coch wedi bod yn llwyddiant ac o les mawr i blwyfi Llandyrnog a Llanynys.